Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 22.06.22 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb Estyn i gais Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am wybodaeth parthed ymchwiliad i addysg cyfrwng Cymraeg, gan ganolbwyntio yn benodol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinac

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae ansawdd ac uchelgais y cynlluniau strategol addysg Gymraeg yn amrywio yn fawr. Ar y gorau, maent yn finiog, yn glir ynglŷn a'u nodau ac yn cynnig sicrwydd am y gweithrediadau. Mae'r cynlluniau llai llwyddiannus yn prin o uchelgais a manylion gweithredu. Wedi dweud hynny, maent yn welliant ar y cynlluniau blaenorol,

At ei gilydd, mae'r gofynion o ran cynllunio dros ddeng mlynedd yn gam cadarnhaol ac mae ymgyrraedd at dargedau penodol o ran nifer o ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn 1 a'r pwyslais briodol ar addysg cyn-ysgol yn synhwyrol. Mae gweld pwysigrwydd trochi cynnar a hwyr yn gam cadarnhaol iawn ac yn rhoi cyfle i ddysgwyr ar wahanol bwyntiau ar eu taith addysgol i ymuno ar y daith i fod yn ddwyieithog.

Mae cyd-weithio ar draws awdurdodau yn brin ac hyd yn oed pan mae hyn yn cael ei amlygu mewn cynllun un awdurdod, yn aml nid yw cynlluniau awdurdodau eraill cyfagos yn rhoi llawer o gydnabyddiaeth i'r cyd-weithio. Collir cyfleoedd hefyd i ehangu a chyd-lynu darpariaeth ôl-16. Mae cydweithio ar draws awdurdodau i sicrhau darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn fwy amlwg yn y cynlluniau lle mae hynny'n berthnasol. Efallai taw'r prif wendid yw'r sylw gwan i ddatblygu Cymraeg fel pwnc a chyfrwng yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Mae'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yn cynnal ymchwiliad i addysg cyfrwng Cymraeg, gan ganolbwyntio yn benodol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ymchwiliad ar y cyd yw hwn, a bydd yn edrych ar sut y mae'r fframwaith statudol, a sefydlwyd i hyrwyddo'r gwaith o gynllunio a datblygu addysg Gymraeg, yn gweithio.

Er mwyn llywio'r ymchwiliad, hoffai'r Aelodau glywed gennych ar y cwestiynau a ganlyn:

- Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bedwaredd Senedd argymhellion yn ei adroddiad ar '**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg**'. A yw'r fframwaith statudol presennol ar gyfer Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi gwella ers hynny?

Yn 2015, cyhoeddwyd adolygiad o'r strategaeth ar ran Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Nododd yr adroddiad nifer o argymhellion ar sut i wella effeithiolrwydd y cynlluniau, ac yn benodol eu heffaith. At ei gilydd, mae argymheliion yr ymchwiliad wedi cyfrannu at welliannau i ansawdd y cynlluniau a gwella'r tebygolrwydd eu bod yn mynd i wella darpariaeth. Mae cynllunio dros gyfnod o ddeng mlynedd yn sicr wedi caniatáu ystyriaeth mwy strategol o'r camau sydd

angen eu cymryd ac mae nodi targedau penodol i ymgyrrraedd atynt yn gam defnyddiol.

Nodwyd bod angen sicrhau bod targedau'r strategaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Strategol a bod angen i swyddogion y Llywodraeth fod yn fwy cadarn wrth gymeradwyo'r cynlluniau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos bod y cynlluniau a gyflwynwyd gan yr awdurdodau yn cwrdd â'r targedau o ran nifer o ddisgyblion blwyddyn 1 sydd yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r uchelgais a nodir yn y cynlluniau unigol yn amrywio, ond mae pob un yn cwrdd â'r targedau isafswn o leiaf, fel y nodwyd yn y canllawiau.

Cam cadarnhaol fu'r ymgynghoriad ar gategoreiddio ysgolion. Er y bu peth gwrthwynebiad i'r cynigion gwreiddiol, ymatebodd y llywodraeth i'r adborth, yn benodol wrth gynnwys diffiniad mwy eglur o beth a olygir wrth ysgol cyfrwng Cymraeg penodedig. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r cynlluniau drafft yn rhoi sylw penodol i'r categoriau arfaethedig.  Mae hyn yn rhannol oherwydd nad oedd y polisi terfynol wedi ei gyhoeddi pan oedd swyddogion yr awdurdodau lleol yn paratoi eu drafftiau cynnar.

Cynhwysa'r gofynion diweddaraf gymal sy'n gofyn i awdurdodau amlinellu eu cynlluniau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae cynlluniau pob awdurdod yn nodi eu bwriadau i hyrwyddo'r Gymraeg mewn amryfal ffyrdd. Mae'n anodd i ni fesur ansawdd ac effaith y gwaith hwn ar hyn o bryd.

Noda'r adolygiad bwysigrwydd cryfhau rolau fforymau iaith yn y broses o arwain y cynlluniau strategol. Nodwyd bod yna ddiffyg cysondeb o ran dulliau gweithredu ac aelodaeth. Nid yw'r dystiolaeth ar draws Cymru yn awgrymu bod newid mawr wedi bod yn nylanwad fforymau iaith at ei gilydd. Yn yr achosion gorau, er enghraifft yng Nghasnewydd, mae'r fforymau yn ddylanwadol ac yn heriol ac yn chwarae rôl bwysig wrth lunio a saernïo'r cynlluniau strategol.

Nid yw rôl strategol y consortia rhanbarthol yn elfen amlwg yn y cynlluniau a gyflwynwyd gan yr awdurdodau. Mae cyfeiriadau at gyfraniad y consortia tuag at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg yng nghyd destun y Gymraeg, cefnogaeth bynciol yn yr uwchradd a pharatoi adnoddau er enghraifft ar gyfer yr unedau trochi. Ond at ei gilydd, prin yw'r cyfeiriadau at rôl y consortia wrth gynorthwyo gyda chynllunio ieithyddol bwriadus ar draws awdurdodau yn y rhanbarthau. Mae awdurdodau wedi bod yn trafod a chyd-cynllunio mewn rhai achosion, er enghraifft yn y de-ddwyrain, mae CSGA Blaenau Gwent yn cyfeirio at y cyd-weithio trwy'r Consortiwm De Ddwyrain Cymru (SEWC) wrth iddynt olrhain a chynllunio addysg uwchradd Gymraeg ar draws ffiniau sirol e.e. Ysgol Gwynllyw yn Nhorfaen ac wrth ystyried agor ysgol uwchradd i wasanaethu ardal Blaenau'r Cymoedd.

- I ba raddau y mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – **Cymraeg 2050**;

At ei gilydd mae'r cynlluniau yn cyfrannu yn gadarnhaol at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn y Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - Cymraeg 2050. Mae'r targedau a osodwyd yn sicrhau bod y niferoedd fydd yn derbyn addysg Gymraeg ar ddiwedd oes y cynlluniau yn cwrdd ậ'r targedau a bennwyd gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, rhaid cofio mai cynlluniau yn unig sydd wedi eu cyflwyno a bod angen monitro a chraffu ar sut mae'r cynlluniau yn cael eu gweithredu dros y ddegawd gyda thebygolrwydd y bydd newidiadau i'r swyddogion a'r aelodau etholedig fydd a'r cyfrifoldeb o lywio'r cynlluniau yn ystod y cyfnod.

- Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwy ffrwd?

Mae'r darlun ar draws Cymru yn gwahaniaethu, ac mae hyn i raddau oherwydd cyd-destun ieithyddol a phatrwm strwythurol y ddarpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg a Saesneg. Er enghraifft yn y de a'r gogledd ddwyrain, ysgolion penodedig Cymraeg a Saesneg yw'r drefn, ac ond ychydig iawn o amrywiaeth sydd i'r drefn yma. Yn y gogledd a de orllewin, mae patrymau cymhleth o ysgolion penodedig Cymraeg gyda chontinwwm o drefniadau amrywiol o ddarpariaeth.

Yn y de-ddwyrain, mae cyfeiriadau at gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion sy'n bennaf yn gyfrwng Saesneg yn brin. Mae'r cynlluniau yn nodi bwriadau naill a'i i lenwi'r llefydd gweigion sydd eisoes yn y sector addysg Gymraeg, neu i agor darpariaeth newydd mewn ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn ddaearyddol bell oddi wrth garfan o ddisgyblion fyddai o bosib yn dymuno mynediad at addysg Gymraeg. Er enghraifft, mae Cyngor Pen-y-bont yn cynllunio ehangu darpariaeth gynradd trwy adleoli un ysgol i safle sy'n fwy hygyrch, sefydlu ffrwd Gymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg a chynllunio i agor ysgol Gymraeg newydd yn ne orllewin y Sir. Does dim cyfeiriad at annog ysgolion eraill, boed hynny yn gynradd neu uwchradd i symud ar hyd y continwwm ieithyddol. Mae cyfeiriadau at wella safonau yn y Gymraeg fel pwnc a hefyd i gyd-weithio gyda Choleg Pen-y-bont i gynyddu darpariaeth yn benodol eu cyrsiau galwedigaethol. At ei gilydd, mae cynlluniau rhelyw o awdurdodau'r de a'r gogledd ddwyrain o'r un anian.

Mae gan Gasnewydd gynllun sy'n cynnwys targedau sy'n uwch na'r rhai a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys camau at ddatblygu ysgolion dwy ffrwd sydd hefyd yn rhan o weledigaeth Cyngor Caerdydd wrth agor ysgolion mewn stadau tai newydd.

Mewn awdurdodau'r de a gogledd orllewin, mae'r darlun yn fwy cymysg. Mae pump awdurdod yn datgan yn glir eu dyhead i gynyddu'r ddarpariaeth Cymraeg mewn ysgolion sy'n bennaf yn rhai cyfrwng Saesneg neu sydd ậ ffrydiau Cymraeg. Mae Ceredigion er enghraifft yn nodi yn ei chynllun y camau at sicrhau bod chwe o'i saith ysgol uwchradd yn gategori 3 yn ystod oes y CSGA. Maent yn adnabod y camau gweithredu at wireddu'r bwriadau, er enghraifft trwy ymgysylltu gyda byrddau llywodraethu'r ysgolion hynny fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol ac

wedi i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y Cyngor. Golyga hyn newid sylweddol i'r ddarpariaeth uwchradd yn yr awdurdod. Mae Gwynedd a Môn yn nodi eu bwriadau lefel uchel i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hysgolion uwchradd ond heb y manylion a'r sicrwydd gweithredu a welir yng Ngheredigion. Yn yr un modd mae Sir Gaerfyrddin yn cynllunio i newid categorïau ieithyddol nifer o'u hysgolion cynradd sydd yn ysgolion dwy-ffrwd ar hyn o bryd a hefyd adeiladu ac ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgolion uwchradd ar hyd yr awdurdod. Mae Sir Benfro yn enghraifft dda o awdurdod sydd yn gwneud camau arwyddocaol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr uwchradd a chynradd. Mae'r camau yn uchelgeisiol, e.e. newid categori ieithyddol Ysgol Bro Gwaun fydd yn dasg heriol ac yn wleidyddol sensitif. Noda nifer o awdurdodau bod angen ystyried y targedau yng nghyd-destun o'r tueddiadau sy'n bodoli yn yr awdurdod sy'n cynnwys gostyngiadau yn y cyfraddau geni.

At ei gilydd, lle mae'r ewyllys gwleidyddol yn gadarn gref, mae'r newid yn y categorïau wedi cynnig cyfle i edrych o'r newydd ar ffyrdd o ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae nifer o awdurdodau wedi bachu ar y cyfle, ond mae eraill yn fodlon gydag ymagwedd fwy gofalus ac yn cynnig y lleiafswm o newid sydd ar y gorau yn cwrdd â y lleiafswm y gofynion.

- Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?

Y prif heriau fydd sicrhau staff digonol gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol a safonol i addysgu'r pynciau cyfrwng yn ein hysgolion ac yn ein darparwyr cyn-ysgol. Mae'r strategaeth yn adnabod yr her yma ac mae'r llywodraeth newydd gyhoeddi papur sydd wedi dadansoddi'r her a chynnig rhai camau gweithredu.

Nid yw'r cynlluniau at ei gilydd yn gwneud cysylltiadau digon penodol gyda'r sector Cymraeg i oedolion a gwaith y Ganolfan Ddysgu Cymraeg. O ganlyniad mae cyfleoedd yn cael eu colli o ran cyd-weithio i hyfforddi'r gweithlu a rhannu arfer dda ar addysgeg effeithiol i gaffael yr iaith.

Mae CSGA yn y rhan fwyaf o awdurdodau yn ymateb i'r gofynion yn lled ofalus a cheidwadol. Maent yn cwrdd â'r gofynion o ran y targedau a osodwyd gan y Llywodraeth, ond dim ond ychydig o awdurdodau sydd wedi cymryd y cyfle i wthio'r maen i'r wal. Mae awdurdodau llai uchelgeisiol yn fodlon gyda llenwi llefydd gweigion er mwyn cwrdd â thargedau'r llywodraeth yn aml heb ystyried y rhesymau dros y llefydd gweigion.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi pwyslais ar ddatblygu medrau llafar disgyblion ond prin iawn yw'r cyfeiriadau yn y cynlluniau strategol at sut mae ysgolion cyfrwng Saesneg yn mynd i wella'r ddarpariaeth yma. Yn gyffredinol, dyma wendid fwyaf y cynlluniau yn yr ardaloedd lle mae'r mwyafrif o ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg.

Mae sicrhau bod dysgwyr yn medru cael mynediad at addysg Gymraeg ar wahanol gyfnodau ar eu taith addysgol yn bwysig iawn. Mae tynged ieithyddol plant yn rhy ddibynnol ar benderfyniad eu rhieni yn y cyfnod cyn-ysgol, ond mae

trochi yn cynnig ail gyfle i ymuno ar y daith i fod yn ddwyieithog. Felly mae sicrhau cyllid digonol i sefydlu ac ehangu'r ddarpariaeth drochi yn hanfodol.
**Addysg Drochi Cymraeg -Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed**